# RHAGLEN CEFNOGI GWYDDONIAETH DINASYDDION – DOGFEN CANLLAWIAU YMGEISIO

Dŵr Cymru Welsh Water

## TROSOLWG

Yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n ymwybodol o'r awydd am Wyddoniaeth Dinasyddion yn ein cymunedau. I annog gwneud cynnydd tuag at fframwaith Gwyddoniaeth Dinasyddion cydnabyddedig, mae Dŵr Cymru yn cefnogi'r prosiect Catchment Systems Thinking Cooperative (CaSTCo), enillydd Cronfa Arloesedd OFWAT.

Nod y prosiect hwn yw galluogi cymunedau lleol i gasglu data cadarn y mae modd ei rannu gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill, gan ganiatáu penderfyniadau yn y dalgylch sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd CaSTcO yn datblygu fframwaith cenedlaethol o adnoddau a hyfforddiant safonol. Mae disgwyl i hyn gael ei gwblhau yn 2024.

Yn y cyfamser, tra bod fframwaith ehangach yn cael ei ddatblygu, mae gan Dŵr Cymru Raglen Cefnogi Gwyddoniaeth Dinasyddion ar gael o wanwyn 2023, wedi'i sicrhau hyd at 2 flynedd yn y lle cyntaf. Mae'r rhaglen hon yn agored i geisiadau gan Sefydliadau Anllywodraethol amgylcheddol (eNGOs) a rheoleiddwyr i wneud cais ar ran grwpiau a chymunedau lleol sy'n bwriadu ymgymryd â gwyddoniaeth dinasyddion.

Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen wedi'i sicrhau tan fis Mawrth 2025 a bydd yn galluogi grwpiau a sefydliadau gwyddoniaeth dinasyddion i wneud cais am hyd at £10,000 y prosiect mewn cyfnod o 12 mis. Mae cap ar faint o gyllid sydd ar gael bob blwyddyn a byddwn ni'n ystyried dyraniad teg ar draws ein hardal weithredol. Byddwn ni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan a byddwn yn cyfathrebu petai/ pan fo'r cap hwn yn cael ei gyrraedd a bydd ceisiadau ar gyfer y flwyddyn honno'n cau. Byddwn ni'n rhoi gwybod pan fydd ceisiadau'n cael eu hail-agor.

Gallwch chi weld y ffurflen gais yma.

Bydd Dŵr Cymru yn ymdrechu i gefnogi'r prosiect ond ni fydd yn cymryd rôl arweiniol. Mae unrhyw arian yn grant ac nid yw'n caffael gwasanaeth. Bydd ceisiadau sy'n cefnogi amcanion a mesuriadau perfformiad ein cwmni yn cael eu hystyried.

## PWY ALL YMGEISIO?

Mae'n rhaid i Sefydliadau Anllywodraethol amgylcheddol neu'r reoleiddiwr gyflwyno ceisiadau ar ran grwpiau gwyddoniaeth dinasyddion. Gall nod y prosiectau hyn fod i ddarparu data, gwybodaeth a manteision (posibl) sy'n ymwneud ag agweddau amgylcheddol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ansawdd dŵr afonydd, iechyd morol, daearol, addysg a bioamrywiaeth. Caniateir cyllid ar gyfer pob prosiect penodol unwaith mewn cyfnod o 12 mis. Gall y prosiect ymgeisio eto yn ystod cyfnod y 12 mis nesaf.

## BETH YW'R BROSES YMGEISIO?

Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein sydd ar gael yma, wedi'i chefnogi gan gynnig prosiect (dewis i'w uwchlwytho i'r ffurflen gais ar-lein). Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi am fwy o wybodaeth os oes angen. Bydd prosiectau wedyn yn cael eu hasesu.

Bydd ein ffurflen gais ar-lein yn gofyn am wybodaeth fel enw'r prosiect, y Sefydliadau Anllywodraethol amgylcheddol sy'n cyflwyno cais, manylion cyswllt, disgrifiad byr o'r prosiect, gwerth y grant yr ydych chi'n ymgeisio amdano, ardal ddaearyddol +.

Wrth gyflwyno briff prosiect ategol, efallai y bydd ymgeiswyr eisiau ystyried:

- Dangos pwrpas clir a defnyddio methodoleg gadarn i gyflawni eu hamcanion.
- Nodi bod y prosiect wedi'i leoli o fewn y rhanbarth yr ydyn ni'n ei wasanaethu.
- Pam mae'r prosiect yn berthnasol i'r gymuned leol ac yn ymdrin â materion pwysig, er enghraifft, yn gysylltiedig ag ansawdd dŵr, bioamrywiaeth.
- Sut mae'r prosiect yn cyfrannu at wella dealltwriaeth ehangach; gyda'r potensial i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

# RHAGLEN CEFNOGI GWYDDONIAETH DINASYDDION – DOGFEN CANLLAWIAU YMGEISIO

Dŵr Cymru Welsh Water

- Y dichonoldeb i weithredu a chwblhau o fewn yr amser a'r gyllideb arfaethedig.
- Y sgiliau, profiad, ac adnoddau angenrheidiol i weithredu a rheoli'r prosiect yn llwyddiannus.
- Cydweithio â sefydliadau neu arbenigwyr eraill yn y maes.
- Cynllun ar gyfer cynnal ei ganlyniadau a'i effaith y tu hwnt i gyfnod y prosiect.

Bydd cynigion o safon hefyd yn:

- Ystyried hyfforddiant ac adnoddau ar waith i sicrhau'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.
- Ystyried rheoli Iechyd a Diogelwch, hyfforddiant ac atebolrwydd.
- Gweithredu mesurau rheoli ansawdd .
- Dangos ystyriaeth i dryloywder yn y prosesau casglu data
- Defnyddiwch ddulliau a phrosesau wedi'u safoni lle maen nhw ar gael.
- Dangos y llywodraethu sydd ar waith gyda goruchwyliaeth trydydd parti, fel Sefydliad Anllywodraethol amgylcheddol neu reoleiddiwr amgylcheddol.
- Cynnwys manylion system rheoli data.

Noder: Dylai pob prosiect roi sylw i'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol dan sylw.

## YDY FY NGHAIS WEDI BOD YN LLWYDDIANNUS?

Byddwn ni'n adolygu ceisiadau yn fisol. Y nod yw darparu adborth ynghylch a ydych chi wedi bod yn llwyddiannus o fewn 6-8 wythnos o gais. Byddwn ni'n diweddaru ein gwefan o leiaf bob 6 mis i ddangos pa brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus fel canllaw i eraill. Os byddwch yn aflwyddiannus, gallwch chi ail-ymgeisio.

## BETH NESAF?

Byddwn ni'n cysylltu â chanlyniad eich cais. Os yw'n llwyddiannus, efallai y byddwn ni eisiau trafod mwy am eich prosiect a dull priodol o drosglwyddo arian.

Bydd y Rheolwr Cyswllt Ansawdd Afonydd ar gyfer pob ardal yn bwynt cyswllt cyntaf, gan gynnwys ar gyfer unrhyw ganlyniadau sy'n gofyn am fwy o weithredu o fewn Dŵr Cymru. Byddan nhw'n adrodd yn ôl ar unrhyw fesur buddsoddi neu fesurau lliniaru posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i weithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion. Os caiff mater ei nodi nad yw'n ymwneud â Dŵr Cymru bydd rhaid adrodd am hyn i'r rheoleiddiwr amgylcheddol perthnasol, naill ai drwy'r swyddog amgylchedd lleol neu'r swyddogaeth adrodd ar lygredd. Bydd Dŵr Cymru yn ymdrechu i gynorthwyo lle bo modd a lle bo hynny'n briodol.

Caniateir i bob prosiect penodol gael cyllid unwaith mewn cyfnod o 12 mis. Gall y prosiect ailymgeisio eto yn y cyfnod 12 mis nesaf. Os byddwch chi'n aflwyddiannus, gallwch chi ail-ymgeisio.